

An abstract graphic design featuring several overlapping circles in various colors: blue, green, yellow, and red. The circles are arranged in a way that they overlap each other, creating a sense of depth and movement. The text is overlaid on the red circle.

Noson Ddathlu'r
Mentrau Iaith

Noson Ddathlu: Arwain y Noson

Mae heno yn digwydd mewn cydweithrediad â Radio Cymru 2. Mae BBC Radio Cymru 2 yn frand cerddoriaeth ac adloniant yn Gymraeg gyda phwyslais ar tiwns i wrandawyr sy'n awchu am gerddoriaeth yn ystod y boreau.

Mae Radio Cymru 2 ar gael ar DAB a thrwy BBC Sounds.

- Daniel Glyn a Mirain Iwerydd sy'n gwmni ar benwythnosau.
- Rhydian Bowen Phillips sydd wrth y llyw ar y Sioe Frecwast bob bore rhwng 7am a 9am o ddydd Llun i ddydd Iau.
- Lisa Gwilym sy'n gwmni o 9am tan 11am, o ddydd Llun i ddydd Iau.
- Bob dydd Gwener, Lisa Angharad sy'n cyflwyno'r Sioe Frecwast rhwng 7am a 9am.
- Bydd Dom James sy'n lais newydd ar yr orsaf am rhwng 11am a 1pm bob bore Gwener.



Heno mae Daniel a Lisa wedi ymuno â ni i lywio'r noson – mae Lisa ar fin dod yn riant eto, felly dymunwn bob hwyl iddynt gan obeithio nad heno yw'r noson!!

Noson Ddathlu: Y Rhestr Fer

Categori: Cymuned



Menter Caerdydd
Tafwyl



Menter Iaith Môn
Ein Hanes Ni



Menter Iaith Sir Benfro
Gŵyl Fal 'na Mai

Categori: Siaradwyr Newydd



Menter Iaith
Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy
Grwp Sgwrsio
Pont-y-pwl



Menter Bro Morgannwg
Sesiynau i Ddysgwyr



Menter Iaith Caerffili
Clwb Cerdded

Noson Ddathlu: Y Rhestr Fer

Categori: Dylanwadu



Menter
Gorllewin Sir Gâr

Menter Gorllewin
Sir Gâr
Prosiect "Profi"



Menter Iaith
Conwy
Gweithgareddau
Awyr Agored



Menter Iaith
Merthyr Tudful
Consortium
Theatr
Gymraeg

Categori: Plant a Phobol Ifanc



Menter Cwm
Gwendraeth Elli
Anthem "O Sir
Gâr i Qatar"



Menter Iaith
Bro Ogwr
Digwyddiadau
"Pop-up"

Menter
Iaith



Menter Iaith
Sir Ddinbych
Bocs Trysor

Noson Ddathlu: Y Rhestr Fer

Categori: Grymuso



Menter Dinefwr
Adfywio Adeilad
"Hengwrt"



menter
iaith
abertawe

Menter Iaith
Abertawe
Hyfforddiant
Pêl-droed
Cymraeg



menteriaith
MALDWYN

Menter Iaith
Maldwyn
Gŵyl Maldwyn

Noson Ddathlu: Y Beirniaid

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r 15 beirniad wnaeth gytuno i feirniadu'r categorïau - a hynny o'u gwirfodd – diolch yn FAWR!

Dewch cael cwrdd â'r beirniaid:

Beirniaid yng nghategori: Cymuned

Angharad Tomos

Awdures

Mae Angharad yn adnabyddus fel awdures llawrydd. Hi ydi awdures y gyfrol boblogaidd i blant – cyfres Rala Rwdins, ac mae hi wedi ennill nifer o wobrau am ei hysgrifennu gan gynnwys y fedal ryddiaith – ddwy waith – yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae hi'n aelod o Fwrdd Menter Gymunedol Yr Orsaf ym mhentref Penygroes, Dyffryn Nantlle ers rhyw 6 mlynedd.

Siôn Jobbins

Swyddog Datblygu'r Gwyddorau Cymdeithasol, Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Bu Siôn sydd yn byw yn Aberystwyth, arwain ar ymgyrch i gael parth .cymru ar y we; mae'n sylfaenydd Ras yr Iaith; sylfaenydd Parêd Gŵyl Dewi Aberystwyth; awdur 4 llyfr ar hanes Cymru a Chymreictod; a chyn Gadeirydd YesCymru. Mae'n cyflwyno podlediad Radio YesCymru ac yn olygydd achlysurol papur bro Aberystwyth, Yr Angor.

Dan Swain

Swyddog Prosiect gyda Cerdd Gymunedol Cymru

Cerddor, Cyfansoddwr a Chwaraewr Bas gyda'r band Cymraeg 9Bach, mae Dan yn chwaraewr sesiwn ac yn berfformiwr profiadol sydd hefyd wedi gweithio ym myd addysg cerddoriaeth. Yn ei rôl bresennol mae'n trefnu prosiectau aml-gelfyddydol cymunedol a gweithdai cerddoriaeth yng nghyd-destun ei swydd.

Noson Ddathlu: Y Beirniaid

Beirniaid yng nghategori: **Siaradwyr Newydd**

Siôn Meredith

Pennaeth Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr

Dechreuodd Siôn ei yrfa yn 1987 yn gweithio i fudiad CYD i ddod â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd, ac yn ei swydd bresennol mae wedi parhau i arwain partneriaethau i gefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

Siwan Tomos

Tiwtor Arbenigol Nant Gwrtheyrn

Yn wreiddiol o ogledd Sir Benfro, mae Siwan wedi ymgartrefu ym Mhen Llŷn. Bu'n gweithio am dros ddeng mlynedd yn y maes cynllunio iaith gyda chwmni IAITH. Roedd y rôl honno yn rhoi cyfle iddi weithio gyda sefydliadau ar draws Cymru, gan gefnogi eu staff i wella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Bellach mae'n gweithio fel tiwtor yn Nant Gwrtheyrn a gyda Phrifysgol Bangor. Yn y Nant mae'n gweithio gyda siaradwyr newydd o bob cwr o Gymru ac ar bob lefel. Y plaser mwyaf yw gweld y siaradwyr newydd yn tyfu mewn hyder ac yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd newydd.

Joe Healy

Myfyriwr PhD, Prifysgol Caerdydd

Daw Joe Healy o Wimbledon yn wreiddiol, a daeth i Gaerdydd i astudio yn y brifysgol a phenderfynu aros yn y brifddinas. Dechreuodd ddysgu Cymraeg yn 2018, ac erbyn heddiw mae'n ei siarad yn gwbl hyderus, gan ei defnyddio yn gymdeithasol ac yn y gwaith. Mae hefyd wedi mynd ati i gefnogi ei gydweithwyr i ddysgu Cymraeg.

Mae Joe'n angerddol dros y Gymraeg a Chymru, ac yn awyddus i weld ein hiaith yn ffynnu yn y dyfodol. Mae hefyd yn ymddiddori mewn gwleidyddiaeth. Mae'n parhau i fyw yng Nghaerdydd ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol ym mhob rhan o'i fywyd.

Noson Ddathlu: Y Beirniaid

Beirniaid yng nghategori: Dylanwadu

Ceri Cunningham

Gweithiwr Datblygu Cwmni Bro Ffestiniog

Mae gan Ceri brofiad eang o weithio a datblygu prosiectau cymunedol efo Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw, fel swyddog Datblygu ac yna fel Cydlynnydd rhwng 2010-12. Mae'n un o sylfaenwyr Antur Stiniog yn 2008 ac yn reolwr cyffredinol y fenter rhwng 2011-15 cyn symud ymlaen i weithio fel rheolwr mentrau cymunedol GISDA rhwng 2015-2017. Ers 2018 mae Ceri wedi bod yn arwain ar ddatblygu gweledigaeth rhwydwaith Cwmni Bro Ffestiniog sydd yn fenter 'parasol' i dros 15 o fentrau a busnesau cymunedol ym Mro Ffestiniog.

Danny Grehan

Actor, Cynghorydd a Swyddog Cymuned i Heledd Fychan AS

Mae Danny wedi bod yn ymgyrchu, a gweithio dros achosion i hybu'r Gymraeg ers gadael yr ysgol. Bu'n aelod o bwyllgor rheoli Menter Taf Elai, wedyn Menter Iaith RHCT, yn y dyddiau cynnar pan roedd Mentrau yn newydd ac yn hollol wirfoddol. Medd Danny: "Mae llawer wedi newid dros y blynyddoedd, a syniadau a Mentrau yn datblygu drwy'r amser. Mae hi wedi bod yn ddifyr iawn i weld yr holl waith a syniadau amrywiol a blaengar gan y Mentrau."

Kathryn Jones

Rheolwr Gyfarwyddwr IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith

Kathryn yw Rheolwr Gyfarwyddwr IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith ers 2016. Ymunodd â IAITH ym 1999 fel Uwch-ymgyngorydd a daeth yn Gyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil Iaith y cwmni yn 2008. Hyfforddodd fel cymdeithasegydd iaith ym Mhrifysgol Caerhirfryn yn ystod 1991 – 1999 ac mae wedi gweithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol ym meysydd dwyieithrwydd/amlyieithrwydd a pholisi a chynllunio iaith ers dros 30 mlynedd. Mae Kathryn hefyd wedi awduro a chyflwyno modiwlau academaidd ar gymdeithaseg iaith, caffael iaith, addysg ddwyieithog, a pholisi a chynllunio iaith corfforaethol a chymunedol ym mhrifysgolion Caerhirfryn, Bangor, a'r Drindod Dewi Sant.

Noson Ddathlu: Y Beirniaid

Beirniaid yng nghategori: **Plant a Phobl Ifanc**

Anne Jones

Cyn-Ddirprwy Gyfarwyddwyr Gwersyll yr Urdd Caerdydd

Ar ôl dysgu Cymraeg mewn Ysgolion Uwchradd am 17 o flynyddoedd a nawr fel Cyn-ddirprwy Gyfarwyddwyr Gwersyll yr Urdd Caerdydd, mae profiadau sydd yn cael eu cynnig i bobl ifanc yn agos iawn at galon Anne. “Mae’n hynod o bwysig bod plant a phobl ifanc Cymru yn cael profiadau y tu hwnt i’r ystafelloedd dosbarth a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg” esbonia. “Llongyfarchiadau mawr i Fentrau Iaith Cymru ar barhau i gynnig a datblygu cyfleoedd bendigedig i blant a phobl ifanc Cymru.”

Gavin Ashcroft

Dirprwy-Bennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn

Mae Gavin wedi bod yn hyfforddi pobl ifanc ers dros 20 mlynedd yn y maes celfyddydau yng Nghymru. Mae'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn rhinwedd ei swydd fel athro ysgol gynradd. Mae'n un o dîm craidd a sefydlodd Bro Taf, ysgol berfformio sy'n datblygu sgiliau perfformio traddodiadol Cymreig i bobl ifanc ardal Pontypridd, a Chôr y Cwm. Mae ganddo ddiddordeb mawr yn niwylliant unigryw Cymru ac wedi ymrwymo i drosglwyddo'r sgiliau hyn ymlaen i'r cenedlaethau nesaf.

Sian Elin Williams

Cydlynnydd Cyfranogi Theatr Gen ac yn rhedeg cwmni fy hun fel cymeriad o'r enw Siani Sionc

O fewn rhinwedd ei swydd gyda'r Theatr Genedlaethol ers 2020 mae'n trefnu gweithgareddau a rhedeg gweithdai ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Sian Elin hefyd yn rhedeg cwmni bach ei hun fel cymeriad o'r enw Siani Sionc. Mae Siani Sionc yn gymeriad sydd yn ymweld ag ysgolion, meithrinfeydd a digwyddiadau yn annog plant i fwynhau'r Celfyddydau a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Medd: “Mi roedd hi'n bleser beirniadu'r categori yma gan fod Mentrau Iaith yn agos iawn at fy nghalon.”

Noson Ddathlu: Y Beirniaid

Beirniaid yng nghategori: **Grymuso**

Lowri Jones

Pennaeth Datblygu a Phrosiectau Golwg Cyf

Mae Lowri yn mwynhau gweld cymunedau'n ffynnu ac yn ceisio chwarae rhan fach mewn helpu hynny i ddigwydd. Ar ôl cyfnod o 10 mlynedd fel cyfieithydd gyda chwmni annibynnol yn y gorllewin, yn 2019 symudodd Lowri i weithio i gwmni Golwg ar brosiect arloesol Bro360, lle bu'n arwain yr ymdrech i alluogi cymunedau yn Arfon a Cheredigion i gydio yn y cyfryngau er mwyn gwneud lles i'r gymdeithas leol a'r Gymraeg. Bellach mae 9 o wefannau straeon lleol bywiog yn rhan o'r rhwydwaith, ac maent yn lle i bobol leol rannu straeon am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, hyrwyddo digwyddiadau a chefnogi busnesau bach.

Deian ap Rhisiart

Ymgynghorydd cynhwysiant digidol gyda rhaglen Cymunedau Digidol Cymru

Mae rôl Deian yn cael ei weinyddu gan Gwmni Cydweithredol Cwmpas ar ran Llywodraeth Cymru. Mae ei waith yn benodol yn gweithio gyda mudiadau a sefydliadau sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn gwella cynhwysiant digidol o fewn ein cymunedau. Fel yr eglurodd Deian, "Er mwyn grymuso cymunedau a'r iaith Gymraeg, mae angen i bawb o bob oed allu defnyddio technoleg a'n gwaith ni yw eu cynorthwyo a'u hwyluso i gyflawni'r nod." Mae Deian hefyd yn ysgrifennu colofn fisol i sawl papur bro led-led Cymru yn rhoi cyngor ar 'ddifyrion digidol'.

Menna Machreth

Cadeirydd Llety Arall Cyf

Mae Menna Machreth yn byw yng Nghaernarfon ac yn gadeirydd ar Llety Arall, menter gymunedol sy'n cynnig llety a gofod cymunedol yng nghanol y dref. Gobaith y fenter yw denu ymwelwyr a'u helpu i ddysgu am iaith, diwylliant a threftadaeth unigryw tref Caernarfon a'r ardal gyfagos. Mae Menna hefyd yn gyn-gadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac yn credu'n gryf yn yr angen i rymuso cymunedau lleol i fod yn gynaliadwy ac i gynnal ac adfywio'r iaith Gymraeg.

Noson Ddathlu: **Noddwyr**



Ni fyddai'r noson hon yn bosibl heb ein noddwyr – rydym yn arbennig o ddiolchgar am y cydweithio sydd wedi bod gyda Radio Cymru 2 – byddai'r noson dipyn tlotach heb eu cymorth!

Diolch arbennig i Gwmni Darwin Gray – rydym yn diolch i'r cwmni hwn yn reit aml, ond eleni eto mae'n nhw wedi bod yn barod noddi'r noson.



Mae'r cwmnïau a'r mudiadau isod wedi bod yn barod iawn i noddi categori – diolch enfawr iddyn hwythau am eu parodrwydd!



y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Cwmi Iaith
Cymuned



Hansh
Plant a Phobol Ifanc



Llety Arall
Grymuso



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Y Ganolfan Dysgu
Cymraeg Genedlaethol
Siaradwyr Newydd



Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

Rhieni Dros Addysg Gymraeg
Dylanwadu

Diolch i bawb – a diolch i gynrychiolwyr y cwmnïau / mudiadau hyn am ddod i'r noson a chyhoeddi enwau enillwyr y gwobrau ar y noson,
DIOLCH!

Noson Ddathlu: Diolchiadau

Y Criw Technegol

Mae Aled Phillips yn adnabyddus i ni fel Mentrau Iaith – ef wnaeth gynnal ein cwis yn ystod y cyfnod clo, ac mae'n gyn-weithiwr gyda Menter Caerdydd.

Diolch enfawr iddo a'i gyd-weithiwr Meilyr Hedd, am eu gwaith heno yn gosod y sain a'r goleuo a rheoli'r cyflwyniadau. Gallwch gysylltu gydag Aled: aled.wyn.phillips@btinternet.com

Rebecca Hardy



Mae'r gwobrau bendigedig o hardd wedi eu cynllunio a'u creu gan yr artist o Fethesda. Mae Rebecca yn artist amlddisgyblaeth sy'n gweithio'n gyfredol mewn argraffu ar sgrin, cerflun a gosodiadau. Mae ei gwaith celf yn ddiddordeb ymestynnol o gatalog arteffactau / straeon / atgofion gan ganolbwyntio ar berthynas rhwng arwynebau fflat a'r tri dimensiwn, o fewn gwead, lliw a ffurf. Mae ei gwaith argraffu yn dangos dylanwad anatomeg dynol a bioleg natur trwy greu'r patrymau a marciau ar gyfer y sgriniau.

Mae'r wobr wedi cael ei dylunio i arddangos lliwiau logo y Mentrau Iaith, gyda 7 lliw wedi argraffu ar sgrin ar bren haenog siâp hirgrwn. Mae haenau patrymau bioleg yn creu siapiau diddorol haniaethol. ** [Rebecca F Hardy](#) **

Bronwen Lewis

Does dim angen cyflwyniad ar y gantores boblogaidd hon – mae hi wedi bod yn canu ers cael ei chyfle cyntaf i ganu'n gyhoeddus pan yn ferch ysgol gan ei Menter Iaith lleol – Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot, yn nhafarn y Gwachel, Pontardawe – gwylwch y fideo [hwn](#) ohoni'n diolch i'r Fenter.

Mae Bronwen wedi dod yn boblogaidd tu hwnt ar TikTok ac yn cyfieithu caneuon poblogaidd Saesneg i'r Gymraeg sydd yn ennyn dipyn o ymateb! ** [Bronwen Lewis](#) **

Noson Ddathlu: Ystyr Enwau Byrddau

Mae gan bob bwrdd enw blodyn.

Cenhinen Bedr

Grug

Clychau'r Gog

Clatsh y Cŵn

Tegeirian

Llygad y dydd

Lili Wen Fach

Llygaid Ebrill

Rhosyn y mynydd

Eithin

Melyn Mair

Brwynddail y
Mynydd

Mae MIC wedi derbyn y newyddion yn ddiweddar, ein bod wedi bod yn llwyddiannus yn ein cais i dderbyn grant treftadaeth y loteri gwerth tua £200,000 i redeg prosiect o'r enw Gwreiddiau Gwyllt. Bydd y prosiect hwn yn ymgais i gasglu a chadw ar gof (a chyda defnydd technoleg!) enwau a thermau cynhenid Cymraeg ym myd natur.

**Daw hafau'r iaith o'r dyfrhau
Y tu ôl i'r petalau.**

Aneirin Karadog

